**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 26ain Gorffennaf 2000**
**Agenda Eitem: 2**

**PLANNING COMMITTEE**
**MEETING - 26th July 2000**
**Agenda Item: 2**

## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
## DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
## RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
## DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990

# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990
## TOWN AND COUNTRY PLANNING (GENERAL PERMITTED DEVELOPMENT PROCEDURE) ORDER 1995 - TO DATE
## PLANNING AND COMPENSATION ACT 1991
## TOWN AND COUNTRY PLANNING ADVERT REGULATIONS 1994
## PLANNING (LISTED BUILDINGS AND CONSERVATION AREAS) ACT 1990

# APPLICATIONS FOR PERMISSION FOR DEVELOPMENT

These are reports and recommendations by Officers for consideration and resolution by the County Planning Authority.
All the applications in respect of the proposals specified in this report will be available for inspection by the Members of the Committee prior to and during the meeting at which the said applications will be considered.
The Background Papers relating to each application, including forms, plans, relevant correspondence, Development Plan and guidance documents are available for public inspection during normal office hours

**Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 26/07/ 2000**

**AGENDA 5**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**

**ENWI STRYDOEDD - PARC BUSNES LLANELWY**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn barn Aelodau am gynlluniau enwi ffyrdd yn y parc uchod sydd o fewn cymuned Bodelwyddan a Chefn Meiriadog.

## 2. Y CYNNIG

2.1 Mae'r WDA (The Welsh Development Agency) wedi cyflwyno thema i'r holl Barc yn ôl enwau cyfieithwyr y Beibl sef:-

William Morgan, William Salesbury, Richard Davies, Thomas Huet, Edmund Prys, Richard Parry, John Davies a Gabriel Goodman.

Awgrymir galw Ffordd 1 ar y map o Glascoed hyd yr A55 yn Ffordd William Morgan.
Y prif ffordd stad i'r de o Ffordd Glascoed (2 ar y map)(i'r rhan sydd o fewn Ardal Cefn Meiriadog) yn Ffordd William Salesbury.
Y cul-de-sac cyntaf i'r gogledd o Glascoed (3 ar y map) yn Llys Edmund Prys.
Yr enwau eraill ar y culs-de-sac eraill i'r gogledd o Ffordd Glascoed - hefo Llys o'u blaen.

## 3. YMATEBION

3.1 Gwasanaethau post ac argyfwng, Cynghorau Cymuned a Chynghorwyr Wardiau - nodi eu sylwadau isod :

Y Post (The Royal Mail Postcodes Section and Sorting Office) - yr enwau yn dderbyniol, ond dim ond 1 ffordd i gael yr enw "William" fel teitl i arbed penbleth hefo cyfeiriadau. (Dim problem yma achos mae sawl enw ar gael heb ddyblygu un enw bedydd.)

Tân ac Ambiwlans (North Wales Fire Service and North Wales Ambulance Service) - dim gwrthwynebiad (llafar)
Heddlu (North Wales Police) - dim ffafriaeth
Cyngor Bodelwyddan - dim gwrthwynebiad (llafar)
Cyngor Cefn Meiriadog - dim gwrthwynebiad (llafar)
Cynghorydd Ward - Bodelwyddan - dim gwrthwynebiad (llafar)
Cynghorydd Ward - Cefn Meiriadog - Teimlo nad yw'r enwau yn addas. Byddai'n well defnyddio enwau ffermydd neu gaeau sydd wedi diflanu i'r strydoedd e.e. Ffordd Dafarn Lefrith yn lle Ffordd William Morgan, Lôn Dafarn Enwyn yn lle Ffordd William Salesbury (neu enw gwahanol i osgoi dyblygu "William"), Lôn y Delyn yn lle Llys Edmund Prys. Awgrymir hefyd y ffordd o'r A55 hyd y cylchdro i gael enw gwahanol sef, Ffordd y Faenol. Enwau eraill i'w cael gan ffermwyr lleol.

Gwnaed ymgynghoriad pellach ar yr enwau hyn a chafwyd ymateb:-

Y Post (The Royal Mail Postcodes Section and Sorting Office) - derbyniol
Welsh Development Agency - yn chwilio am enwau rhanbarthol / cenedlaethol i'r Parc a'r rheini yn rhai gweddol hawdd eu hynganu i fusnesau cenedlaethol a byd eang.
Tân (North Wales Fire Service) - dim gwrthwynebiad (llafar) )
Ambiwlans (North Wales Ambulance Service) - gwell enwi ffyrdd ar ôl pobl .
Heddlu (North Wales Police) - dim ffafriaeth
Cyngor Bodelwyddan - dim ateb
Cyngor Cefn Meiriadog - dim ateb
Cynghorydd Ward - Bodelwyddan - dim ateb

3.2 Mae'r datblygwr yn chwilio am enwau sy'n rhoi statws cenedlaethol / rhanbarthol i'r Parc a nodir yn enwau'r ffyrdd. Mae'r enwau yn weddol hawdd i gynorthwyo busnesau cenedlaethol a byd eang. Cefnogir dymuniad y datblygwr yn hyn yn lle cael enwau rhy leol.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 a) Derbyn y cynllun gwreiddiol gan y WDA heb ddyblygu'r enw "William", sef:-

Y Fordd (Spine Road) (ffordd 1) i gael un enw ar ei hyd - Ffordd William Morgan.
Prif ffordd y stad i'r de o Glascoed (ffordd 2) - Ffordd Richard Davies
Cul-de-sac cyntaf gogledd o Glascoed (ffordd 3) - Llys Edmund Prys
Culs-de-sac eraill gogledd o Glascoed - Llys Thomas Huet, Llys John Davies a Llys Gabriel Goodman

(b) Ffordd y Faenol - ddim i'w gynnwys gan fod cymaint o lefeydd yn Bodelwyddan yn cynnwys y gair 'Faenol'.

**Cynllun ddim ar gael ar ffurf electronig**

**Pwyllgor Cynllunio**
**26/07/2000**

**Agenda** 6

**ADRODDIAD Y PENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO**
**(ER GWYBODAETH)**

**FFERM WYNT ARFAETHEDIG YN TIR MOSTYN A**
**FOEL GOCH, NANTGLYN**

**1. Pwrpas yr adroddiad :**

1.1 Rhoi gwybodaeth.

**2. Diweddariad :**

2.1 Cais gan Windjen Power Ltd i godi 33 turbein ar dir ger Llyn Brenig ar 22/09/1999.

2.2 Cafwyd ymgynghoriad eang. Llawer o ddiddoreb gan y cyhoedd yn y bwriad.

2.3 Aelodau wedi cytuno i ymweld â safle(oedd) cyffelyb cyn gwneud penderfyniad

2.4 Yn Chwefror ac Ebrill gofynnwyd i'r ymgeisydd am fwy o wybodaeth / manylion .

2.5 Ar 26ain Mehefin cawsom ddogfennau ychwanegol . Mae addasiadau sylweddol i'r cynnig - y nifer o dyrbeini i lawr i 25. Asesiad swn, photomontages, asesiad effaith potensial ar y grugieir ( black grouse.)

2.6 Disgwylir am un ddogfen arall.

**3. CAMAU NESAF :**

3.1 Ar ôl derbyn pob dogfen byddwn yn ail ymgynghori â'r cyrff priodol, yn cyhoeddi gwybodaeth / addasiadau newydd yn y wasg leol a rhybuddion safle, yn rhoi gwybod I aelodau o'r cyhoedd sydd wedi ysgrifennu ac yn ymestyn cyfnod o 4 wythnos i dderbyn ateb i hynny.

3.2 Swyddogion i asesu'r cynnig a threfnu ymweliad safle i Aelodau.

3.3 Ar y cam hyn mae hi'n anodd dweud pa bryd y rhoddir adroddiad am y cais i'r Pwyllgor Cynllunio. Y dyddiad cynharaf fydd 4 Hydref 2000.

3.4 Gwybodaeth i Aelodau ar y camau allweddol

**Cynlluniau ddim ar gael ar ffurf electronig**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26ain Gorffennaf 2000**
**EITEM AGENDA RHIF. 9**

## ADRODDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYNLLUNIO

# DYDDIAD YR YMWELIADAU Â'R SAFLE

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

**1.1** Hysbysu Aelodau o'r dyddiad tebygol ar gyfer unrhyw Ymweliadau â'r Safle a ofynnwyd gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YR YMWELIADAU Â'R SAFLE**

**2.1** Mewn ymgynghoriad â Chyfraith a Gweinyddiaeth fe benderfynwyd **mai bore Mercher 2il Awst 2000** sydd fwyaf addas. Mae'r dyddiad wedi cael ei neilltuo am y tro.

**2.2** Fe'ch hysbysir felly y bydd unrhyw ymweliadau â'r safle a drefnir heddiw yn digwydd **Ar Ddydd Mercher 2il Awst ( amseroedd i'w hysbysu).**

**3. AELODAETH O'R PANEL YMWELIAD Â'R SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol a bydd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a hefyd :
pedwar( 4) Cynghorydd Annibynnol ychwanegol
pedwar( 4) Aelod Grwp Llafur ychwanegol
Dau (2) Gynghorydd o Grwp Plaid Cymru
Un (1) Cynghorydd Ceidwadol
Un (1) Aelod o Grwp Cynghrair Democrataidd Cymru
Hefyd yr Aelod Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1** **Bod yr Aelodau yn cytuno bod yr Ymweliadau â'r Safle i'w cynnal ar fore Mercher, 2il Awst 2000.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO - 26/07/00**

**AGENDA EITEM RHIF 10 DDIM AR GAEL A FFURF ELECTRONIG**